Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

29 Gorffennaf 2014

Annwyl Ffred

Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 16 Gorffennaf, trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol y Bil hwn. Ar hyn o bryd, rydym wedi penderfynu peidio â gofyn i'r Gweinidog ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor ond rydym wedi ysgrifennu ato ynghylch nifer o bwyntiau. Atodaf gopi o'r llythyr hwn er gwybodaeth.

At hynny, mae nifer o feysydd yn y Bil efallai yr hoffai eich Pwyllgor eu trafod â rhanddeiliaid y sector cyhoeddus, sef:

**Costau i gyrff cyhoeddus penodol**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y disgwylir i'r costau i gyrff cyhoeddus yng Nghymru o fodloni gofynion y Bil gael eu talu gan ddefnyddio'r adnoddau presennol ar gyfer pennu amcanion corfforaethol ac adrodd arnynt. Mae'r Memorandwm hefyd yn egluro bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ymchwil i sefydlu'r costau llinell sylfaen ar gyfer pennu amcanion strategol o fewn sefydliadau. Mae'r Memorandwm yn nodi y bydd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gostau cynyddol o tua £537,000 dros bum mlynedd gyntaf y Bil ar gyfer mynd i gyfarfodydd, cyhoeddi asesiadau llesiant a threfniadau craffu ychwanegol. *Byddai'n ddefnyddiol dilysu'r ffigurau hyn gyda'r cyrff cyhoeddus penodol i weld a ydynt o'r farn eu bod yn realistig ac a oes angen iddynt ailflaenoriaethu i ffwrdd o adnoddau'r rheng flaen.*

Yn gywir,

**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8809
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**